# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4**
**Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023
Amser: 09.30 - 11.12

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/13244

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Tom Giffard AS (yn lle Peter Fox AS) |
| Tystion: | Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dafydd Evans, Llywodraeth Cymru<br>Leanne Roberts, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat - Anffurfiol (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

1.3 Dirprwyodd Tom Giffard AS ar ran Peter Fox AS ar gyfer eitemau 1 i 6. Roedd Peter Fox AS yn bresennol am weddill y cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau Cyfalaf Trafodion Ariannol - 27 Chwefror 2023

## 3 Goblygiadau ariannol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Dafydd Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwyddorau Bywyd ac Arloesedd; a Leanne Roberts, Pennaeth Polisi Diwygio Caffael - Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu:

- cyfrifon manwl mewn perthynas â'r cynnydd o £2.7 miliwn mewn costau staff i gyrff y GIG a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol;
- cadarnhad o'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid canlyniadol o ganlyniad i'r gwariant yn Lloegr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 23 Mawrth 2023

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Goblygiadau ariannol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Adolygiad o Siarter Awdurdod Cyllid Cymru

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar yr adolygiad o siarter Awdurdod Cyllid Cymru.

## 7 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad cyn cytuno arno, yn amodol ar fân newidiadau.